**Ken Skates AS/MS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Drafnidiaeth a Gogledd Cymru**
**Cabinet Secretary for North Wales and Transport**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-06-1365
Ein cyf/Our ref LW/02314/23

Jack Sargeant AS
Cadeirydd – Y Pwyllgor Deisebau

07 Mai 2024

Annwyl Jack,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 22 Medi 2023 ynghylch Deiseb P-06-1365 – "Ail-agor rheilffyrdd i gysylltu gogledd a de Cymru." Ymddiheuriadau am yr oedi cyn ymateb.

Nid yw'r seilwaith rheilffyrdd sydd ei angen i ailagor y llinellau hyn yn fater datganoledig, ac felly cyfrifoldeb Llywodraeth y DU ydyw.

Mae Trafnidiaeth Cymru yn gweithio ar opsiynau i wella cysylltiadau trafnidiaeth rhwng gogledd a de Cymru, gan gynnwys edrych ar sut i ddiogelu coridorau teithio posibl ar hyd arfordir gorllewinol Cymru ac astudio cysylltiadau bysiau strategol. Fel rhan o'r gwaith hwn, maent yn cynnal astudiaeth ddichonoldeb gychwynnol ar y llwybr rhwng Bangor ac Afon Wen, a fydd yn nodi'r aliniad gorau ar gyfer cysylltiad a chyfyngiadau cyfredol. Mae'r gwaith hwn yn cael ei wneud mewn cydweithrediad â Siân Gwenllian AS, aelod dynodedig arweiniol Plaid Cymru, fel rhan o'r Cytundeb Cydweithredu rhwng Llywodraeth Cymru a Phlaid Cymru.

Yn gywir,



**Ken Skates AS/MS**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Drafnidiaeth a Gogledd Cymru
Cabinet Secretary for North Wales and Transport

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Ken.Skates@llyw.cymru
Correspondence.Ken.Skates@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.